CYNGOR CYMUNED BODORGAN

Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd yn Y Ganolfan, Bodorgan ar Nos Fawrth, 19eg Medi 2017.

1 Presennol:

Cyng Gwilym Looms (Cadeirydd), Cyng Dafydd Jones, Cyng Gareth Evans, Cyng Gwilym Davies, Cyng Myfyr Davies, Cyng Andrew Hughes, Cyng Selwyn Williams, Cyng Alwyn Rowlands,

2 Ymddiheuriadau:

Cyng Jeffrey Hughes & Cyng Gwen Burns.
Cynghorydd Sirol Bryan Owen.

3 **Croesawyd pob aelod i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.**

3.1 Soniwyd fod Cyng Gwen Burns wedi derbyn triniaeth yn Ysbyty Lerpwl ac fod y Cadeirydd wedi dymuno gwellhad buan iddi.

4 **Datgan Diddordeb.**

Dangoswyd Diddordeb Rhagfarnol canlynol:

4.1 Cynghorydd Alwyn Rowlands fel Contractwr Torri Gwair y Cyngor.
4.2 Cynghorydd Gwilym Owen Davies fel perthynas Tenant.
4.3 Cynghorydd Myfyr Davies fel perthynas Tenant.
4.4 Cynghorydd Gwilym Looms fel perthynas Tenant
4.5 Cynghorydd Gareth Evans fel Tenant.
4.6 Cynghorydd Andrew Hughes fel Tenant.
4.7 Cynghorydd Dafydd Jones fel Caeirydd

5 **Swydd y Clerc.**

5.1 Cafwyd adroddiad llawn oddiwrth y Cadeirydd gan gynnwys ebyst a galwadau ffon gyda'r Clerc yn dilyn cyfarfod cafwyd gyda hi ar yr 8fed o Fedi ac wedyn yn cyfeirio at y cyfarfod brys cafwyd Nos Iau, 15fed o Fedi ble soniwyd sefyllfa y Cyngor yn dilyn archwiliad ac adroddiad UHY Hacker Young, Ian Hughes o'r 'Wales Audit', Archwilydd Mewnol John Roberts a Alun Foulkes.

5.2 Yn dilyn yr uchod roedd y Cadeirydd wedi derbyn llythyr o ymddiswyddiad ar unwaith oddiwrth y Clerc gyda'i rhesymau. Nodwyd yr hyn a ddywedwyd ac fe dderbyniwyd yr aelodau yr ymddiswyddiad (DGJ/MD).

5.3 Croesawyd Mr Alun Foulkes i'r cyfarfod. Roedd y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd wedi gofyn iddo fynychu'r cyfarfod ac ymgymeryd y swydd fel Clerc dros dro. Cymeradwyd yr aelodau yr hyn oeddynt wedi ei wneud.

5.4 Pan ddaw'r amser, gofynnir y bydd y swydd yn cael ei hysbysebu yn ddwyieithog.

6 Derbyn Cofnodion Cyfarfod y Cyngor – 18 Gorffennaf 2017.

6.1 Derbyniwyd ac fe arwyddwyd fod y cofnodion yn rhai cywir.

7 Materion yn Codi o'r Cofnodion.

7.1 Lledu Lon, Bethel – adroddiad gan DGJ/AR fod y mater yma mewn llaw ac disgwylir i'r gwaith fod o fewn rhestr a cyllideb 2018/2019 y Cyngor Sir.

7.2 Giat, Plot Gareth Evans – adroddiad fod y sefyllfa wedi ei ddatrys.

7.3 Carafan, Malltraeth – dim adroddiad bellach.

7.4 Parcio, Hermon – parhau i ddisgwyl am adroddiad Cyng Sirol, Mr Peter Rogers.

7.5 Cyffordd Cefn Dderwen/Carreg Ceiliog Bach – adroddiad fod y contractwyr bellach darfod y gwaith.

8 Derbyn Cofnodion Brys y Cyngor – 14 Medi 2017.

8.1 Derbyniwyd ac fe arwyddwyd fod y cofnodion yn rhai cywir. (DGJ/AR)

9 Materion yn Codi o'r Cofnodion.

9.1 Diolchwyd i Cyng Dafydd Jones am yr holl waith ar rhan y Cyngor.

9.2 Diolchwyd i Mrs Rogers am ddarparu'r cofnodion.

9.3 Cytunwyd y dylai fabwysiadu'r argymellion a godwyd yn adroddiad Mr Alun Foulkes.

10 Taliadau:

10.1 Zurich Insurance – Yswiriant Blynyddol - £423.93

10.2 Mynwent Llangadwaladr – Cynnal & Chadw - £150.00

10.3 Ysgol Bodorgan – Rhodd - £250.00.

Arwyddo.....

11 Materion Cyllid & Gweinyddu.

11.1 Nodwyd fod y Clerc wedi derbyn UN cyflog yn ormod y llynedd ac felly penderfynwyd yr aelodau na ddylai wneud unrhyw taliadau pellach iddi (DGJ/AH).

11.2 Nid oedd adroddiad Mr Ian Hughes o'r Welsh Audit ar gyfer cyfrifon blynyddol 2013/14 & 2014/15 heb ei dderbyn eto.

11.3 Penderfynwyd a cytunwyd y dylai'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd wneud trefniadau adennill holl ddogfennau'r Cyngor sydd mewn cynhwysydd yng Nghefn Cwmwd a gwneud trefniadau pellach o gadw yn yr Ysgol dros dro.

11.4 Gofynnir gwneud trefniadau o gywiro mandad y Banc.

11.5 Cadarnhawyd nad oedd y Cyngor wedi cofrestru gyda'r HMRC ar gyfer TWE tan Gorffennaf 2017 ac roedd Mr Alun Foulkes am anfon llythyr atynt yn gofyn am arweiniad.

11.6 Roedd Mr Alun Foulkes am wneud ymholiadau ynghylch a Gwefan y Cyngor ac adrodd yn nol i'r cyfarfod nesaf.

11.7 Roedd Mr Alun Foulkes am wneud ymholiadau a threfniadau ad-daliad TAW.

11.8 Roedd Mr Alun Foulkes am wneud trefniadau gyda'r Cyngor Sir er mwyn derbyn ad-daliad costau 2016 Llwybrau y Cyngor Cymdeithas.

12 Materion Caeau Chwarae.

12.1 Nodwyd fod Cwmni ROSPA wedi cynnal adroddiad o'r caeau chwarae ar 19/6/2017.

12.2 Nodwyd a cytunwyd y dylai cadw golwg ac archwilio'r caeau chwarae yn fisol fel rhan o bolisi risg y Cyngor a gofyn i Alwyn Rowlands wneud hyn ar rhan y Cyngor. (DGJ/GL).

13 Cytundeb Torri Gwair & Llwybrau.

13.1 Dywedodd Cyng Alwyn Rowlands nad oedd yn bwriadu parhau gyda'r cytundeb oherwydd fod na gwrthdaro mewn buddiannau y Cyngor. Penderfynwyd y dylai creu dogfen tendro am y gwaith a gofyn i Alwyn darparu'r manylebau o'r gwaith sydd angen er mwyn hysbysebu yn y wasg a'r hysbysfyrddau lleol.

14 Materion Mynwentydd.

14.1 Cafwyd adroddiad fod angen ymchwilio ar sawl sydd wedi claddu yn ystod y pedair blynedd olaf er mwyn sicrhau fod y cofrestr a papurau'r Cyngor yn gywir.

14.2 Nodwyd fod prisiau claddu wedi ei adolygu ac y bydd y cadeirydd yn cysylltu gyda'r holl Ymgymerwyr er mwyn iddynt fod yn ymwybodol o'r newidiadau.

Arwyddo.....

15 Materion Priffyrdd & Llwybrau.

Nodwyd fod Cyng Dafydd Jones wedi cyfarfod gyda Llinos Medi er mwyn trafod y canlynol:

15.1 Symud arwyddion 30mya ar ochor Llangefni o'r B4422 yn Bethel fel fod y cyflymdra yn cael ei gyfyngu cyn y ddau dro sydd yn arwain i'r pentref sydd gyda iard amaethwr ar yr ochor chwith bron yn syth wedi'r troadau ac nodwyd fod yr Heddlu yn gefnogol i'r argymelliad yma.

15.2 Gofyn i'r Heddlu gysylltu a rhannu pryderon testun problemau parcio ar yr allt tu allan i'r feddygfa yn Bethel.

15.3 Angen gwydr ar yr A4080 gyferbyn ar ffordd o'r Maes Parcio i'r briffordd yn Malltraeth gan nad oes modd gweld cerbydau yn dod o gyfeiriad Niwbwrch tan tua hanner fordd allan os oes cerbydau wedi ei barcio yn y gilfan wrth y bont. Mae llinellau wedi ei rhoi ar ran o'r gilfan ond nid ydynt yn effeithiol.

Nodwyd hefyd:

15.4 Fod angen sylw a torri'r gordyfiant ar y llwybr arfordir ger The Drive, Malltraeth.

15.5 Fod angen sylw gan fod y llygaid cathode wedi ei taflu i'r ymyl glaswellt yn dilyn gwaith atgyweirio i'r briffordd ger Tan Lan, Bethel.

15.6 Fod angen torri gordyfiant/canghennau er mwyn ysgafnhau y sefyllfa ger cyffordd B4422 i'r A4080.

16 Ceisiadau Cynllunio.

16.1 Cais Llawn ar gyfer defnydd yr adeilad allanol i ddwy annedd gwyliau yn – Pen y Bont, Bodorgan – 36C81A – **DIM SYLWADAU.**

16.2 Cais Leoli Arwydd heb ei oleuo ar dir yn Maes Parcio, Malltraeth – 15C225/AD – **DIM SYLWADAU.**

16.3 Cais Llawn Dymchwel Garaj Presennol ynghyd a Addasu & Ehangu yn – Pen Parc, Malltraeth, Bodorgan – 15C48M – **DIM SYLWADAU.**

17 Penderfyniadau Adran Cynllunio y Cyngor Sir.

17.1 Cais Cynllunio 15C128D/AD – The Wood Workshop, Bethel – **CANIATAD.**

17.2 Cais Cynllunio 15C223 – 6 Bryn Gwna, Bethel – **CANIATAD.**

18 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf – 21ain Tachwedd 2017.

Diolchodd y Cadeirydd i pob aelod am fynychu ac fe clowyd y cyfarfod am 9:00yh.

Arwyddo.....**Cadeirydd**.....21/11/2017.....**Dyddiad.**